| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Pensiynau** |
| **DYDDIAD** | **11 Chwefror 2016** |
| **TEITL** | **Staffio'r Uned Weinyddu Pensiynau** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Mân addasiad i strwythur yr Uned Weinyddu Pensiynau o'r 1af o Fawrth 2016** |
| **AWDUR** | **Nicholas Hopkins – Rheolwr Pensiynau** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn strwythur Uned Weinyddu newydd.** |

## 1. Cefndir

1.1 Yn dilyn penodiadau diweddar, er mwyn helpu'r swyddfa i wella'r proses o wirio gwaith, awgrymir addasu graddfa un swydd o S2 Swyddog Cyfathrebu i radd S3 Uwch Swyddog Cyfathrebu. Y gost ychwanegol i newid hyn fyddai £3,500 y flwyddyn, yn cynnwys Yswiriant Gwladol a chyfraniad pensiwn cyflogwr.

## 2. Adolygu staffio craidd yr Uned Bensiynau o 1 Mawrth 2016

2.1 I wella effeithiolrwydd yr Uned Weinyddu Pensiynau, bwriedir gwneud mân addasiad i'r strwythur fydd yn lledaenu'r cyfrifoldeb goruchwylio. Argymhellir newid i'r strwythur newydd sy'n **Atodiad 2** (mae'r strwythur presennol yn **Atodiad 1** er gwybodaeth).

2.2 Awgrymir newid swydd ddisgrifiad presennol Swyddog Cyfathrebu (5EE014) gradd S2 i arwain yn y maes fel Uwch Swyddog Cyfathrebu ar radd S3. Bydd newid i'r strwythur arfaethedig (Atodiad 2) yn fwy hyblyg wrth arolygu a rheoli holl weithdrefnau'r Uned.

| **Manylion / teitl y swydd** | **Graddfa arfaethedig** | **Cyflog blynyddol llawn amser** | **Cost ychwanegol** |
|---|---|---|---|
| Uwch Swyddog Cyfathrebu | S3 | £34,892 | £3,500 |
| | **CYFANSWM BLYNYDDOL** | | **£3,500** |


## 3. Argymhelliad

3.1 Gofynnir i aelodau gymeradwyo'r cynnydd gwariant ar newid strwythur yr Uned, ar gost o £3,500.

3.2 Cytuno strwythur staff diwygiedig yr Uned Bensiynau yn unol ag Atodiad 2 yn weithredol o 1 Mawrth 2016.

**ATODIAD 1**

## STRWYTHUR PRESENNOL



**ATODIAD 2**

**STRWYTHUR ARFAETHEDIG ADAIN BENSIYNAU O 1/3/2016**

